



Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

www.erw.org.uk

12 Mehefin 2015

Annwyl Gyfaill

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Celfyddydau ar y cyd yn ariannu rhaglen pum mlynedd i hyrwyddo dysgu creadigol a phedagogeg mewn ysgolion. Mae'r rhaglen am gael ceisiadau gan ysgolion neu grwpiau o ysgolion am £5,000 i £20,000 er mwyn hyrwyddo'r gwaith hwn yn eich ysgolion. Rwyf wedi cyfarfod â'r cynrychiolwyr y bore yma a chael y diweddariad canlynol.

Rwyf wedi cael sicrwydd, gan fod ERW yng ngofal 32% o'r ysgolion yng Nghymru, bydd yr adnoddau'n cael eu dosbarthu'n gymesur â hyn. Mae hyn yn golygu bod angen i ni gyflwyno cais a sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfle hwn.

Mae'r Cyngor Celfyddydau'n awyddus i weithio gyda ni ar y rhaglen hon ac mae am wneud y canlynol:

1. Secondio ymarferydd ysgol am hyd at ddwy flynedd i weithio gyda ni'n rhanbarthol i hwyluso creadigrwydd ar draws y cwricwlwm yn ERW. Dylech anfon cais trwy lythyr i'r Cyngor Celfyddydau erbyn 1 Gorffennaf.
2. Croesawu ceisiadau gan **ysgolion** neu **grwpiau o ysgolion** i ddod yn 'asiantau creadigol' a hwyluso/cefnogi ysgolion eraill i ymgysylltu ag artistiaid a chreadigrwydd. Byddai'r cam hwn yn **cefnogi'r egwyddor o gadw adnoddau yn yr ysgolion a galluogi ysgolion** i weithio gyda'i gilydd er mwyn manteisio ar arbenigedd.
3. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 17 Gorffennaf. Mae cwmipas yr arian rhwng £5,000 - £20,000 fesul ysgol neu ragor os yw'r ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae'r modd y mae hyn wedi cael ei gyfathrebu â ni wedi bod yn amrywiol, ac rwy'n deall y bydd yr amserlen yn rhwystredig. Bydd rowndiau ymgeisio ychwanegol yn cael eu cynnal.

Diolch

Betsan O'Connor
Rheolwr Gyfarwyddwr ERW

Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol

<http://www.celfcymru.org.uk/what-we-do/creative-learning/cynllun-yr-ysgolion-creadigol-arweiniol?diablo.lang=cym>

Cynllun yr Asiantau Creadigol

<http://www.artscouncilofwales.org.uk/what-we-do/creative-learning/the-lead-creative-schools-scheme/asiantau-creadigol?diablo.lang=cym>

Cynghrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol. Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee. Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.

